CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Adroddiad Chwarterol – Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb (Tachwedd 2026)
Aelod Cabinet:	Y Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor
Swyddog perthnasol:	Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr
Dyddiad y cyfarfod:	10 Tachwedd 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad chwarterol gerbron gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb a chytuno i dderbyn adroddiadau ar sail tymhorol (pob 4 mis) o hyn ymlaen.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2025 i gydgysylltu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill sy'n ymwneud â'r ymateb i droseddau a gyflawnwyd gan gyn Bennaeth Ysgol, Neil Foden.

2.2 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant (*Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder*) yn hydref 2025, mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Ymateb ym mis Mawrth 2026, yn unol â'r argymhellion a nodwyd.

2.3 Bu addewid i barhau i adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

2.4 Rhennir yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau a'r hyn sydd wedi ac yn parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Comisiynwyd y Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.

3.2 Penodwyd yr Athro Sally Holland i ymgymryd a rôl Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ym mis Chwefror 2025. Mae Sally yn Athro Gwaith Cymdeithasol yng Nghanolfan Ymchwil a

Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn gyn Gomisiynydd Plant Cymru (2015-2022).

3.3 Ers mabwysiadu'r Cynllun Ymateb, mae llawer o waith y Bwrdd Rhaglen wedi canolbwyntio ar sefydlu trefniadau llywodraethu, datblygu camau gweithredu a sicrhau cynnydd yn erbyn argymhellion penodol. Wrth i'r rhaglen aeddfedu, mae'r pwyslais wedi symud yn gynyddol o gwblhau gweithredoedd unigol tuag at weithredu newidiadau, gwreiddio arferion da a mesur effaith y newidiadau hynny ar draws gwasanaethau.

3.4 Yn y cyd-destun hwn, gall cylch adrodd chwarterol gyfyngu ar y cyfle i ddangos cynnydd ystyrlon a thystiolaeth o effaith. Felly, cynigir newid y trefniadau adrodd yn y dyfodol i gylch tymhorol o dri adroddiad y flwyddyn, wedi'u halinio â chyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen. Bydd hyn yn rhoi digon o amser i gamau gweithredu gael eu gwreiddio, i ganlyniadau ac effaith ddod i'r amlwg, ac i'r Bwrdd ystyried cynnydd cyn adrodd i'r Cabinet. Bydd y trefniadau diwygiedig yn parhau i ddarparu sicrwydd rheolaidd a thryloywder, gan alluogi diweddariadau mwy sylweddol ac ystyrlon.

4. Camau nesaf

4.1 Gwaith y Bwrdd yn parhau gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ar gynnydd ymhen 4 mis (mis Mawrth)

5. Sylwadau Swyddogion Statudol.

5.1 Prif Swyddog Cyllid

Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant a nid oes gennyf sylwadau pellach i'w cynnig

5.2 Swyddog Monitro

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu gan y Cabinet gyda Chadeirydd Annibynnol i gydlynu a sicrhau cynnydd ar y Cynllun Ymateb a fabwysiadwyd ganddo. Mae'n allweddol i'r trefniant llywodraethu hwn bod y Cabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn y gwaith hollbwysig yma. Mae adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol, yr Athro Sally Holland yn ddull tryloyw a chadarn o ddarparu'r sicrwydd hwnnw. Rwy'n croesawu'r adroddiad diweddaraf yma.